# Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

# Memorandwm Esboniadol

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth o fewn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i gosodir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

Lesley Griffiths AS
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
24 Tachwedd 2020

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2020 (“yr offeryn”) yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith ddomestig sy’n llywodraethu cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020 a sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae’r Offeryn hefyd yn diwygio’r ddeddfwriaeth hon i:

- symleiddio dull gweinyddu’r cynllun a gwneud ei weithrediad yn fwy effeithlon ac effeithiol;
- dileu darpariaethau sydd wedi darfod neu nad ydynt yn cael eu defnyddio;
- dileu neu leihau’r beichiau ar bersonau sy’n gwneud cais am daliadau uniongyrchol o dan y cynllun;
- gwella’r ffordd y mae’r cynllun yn gweithredu;
- sicrhau bod sancsiynau a chosbau a osodir o dan y cynllun yn briodol a chymesur; a
- cyfyngu ar gymhwysiad y cynllun i dir yng Nghymru yn unig.

Yn ogystal â hynny, mae’r Offeryn yn gwneud diwygiadau i fynd i’r afael â methiannau cyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill sy’n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd, ac i gywiro gwallau mewn offerynnau statudol presennol sy’n ymwneud ag ymadael â’r UE.

Mae chwe rhan i’r Offeryn. Mae Rhan 1 yn gwneud darpariaethau cyflwyniadol i’r Offeryn. Mae Rhan 2 i 6 yn cynnwys diwygiadau o sylwedd sydd wedi’u manylu isod.

Rhan 2 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

Mae Rhan 2 o’r Offeryn yn diwygio’r canlynol, i’r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol:

- Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro’r polisi amaethyddol cyffredin (“y Rheoliadau Llorweddol”);

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r system integredig gweinyddu a rheoli ac amodau ar gyfer gwrthod neu dynnu taliadau a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

mewn perthynas â'r system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio;

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014, 11 Mawrth 2014, sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, gwarantau a defnyddio'r ewro; a

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran asiantaethau talu a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarantau a thryloywder.

Rhan 3 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

Mae Rhan 3 o’r Offeryn yn diwygio:

- Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n pennu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol");

- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin; a

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

Rhan 4 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Ddomestig

Mae Rhan 4 o’r Offeryn yn diwygio’r canlynol i’r graddau y maent yn ymwneud â thaliadau uniongyrchol:

- Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014;

- Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014; a

- Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015.

<u>Rhan 5 – Taliadau Uniongyrchol: Diwygio Deddfwriaeth Ddomestig o ganlyniad i Ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd</u>

Mae Rhan 5 o’r Offeryn yn diwygio Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019.

<u>Rhan 6 – Diwygio Deddfwriaeth Ddomestig o ganlyniad i Ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd</u>

Mae Rhan 6 o’r Offeryn yn diwygio:

- Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2019; a

- Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Rhif 3) 2019.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Daw Rhannau 1, 5 a 6, a rheoliad 7(4) i rym ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y caiff yr Offeryn ei wneud, gyda gweddill yr Offeryn yn dod i rym ar ddiwrnod cwblhau’r Cyfnod Gweithredu. Mae Adran 39 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 yn diffinio diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu fel 11pm ar 31 Rhagfyr 2020.

Rhannau 2, 3, a 4 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 (p.21) ("Deddf 2020") er mwyn gwneud darpariaeth yng nghyfraith yr UE a ddargedwir sy'n llywodraethu'r cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer sicrhau parhad cynllun y taliad sylfaenol yng Nghymru y tu hwnt i 2020, ac i wneud newidiadau bach ond effeithiol i'r cynllun gan gynnwys symleiddio, a dileu beichiau gweinyddol.

Mae Rhannau 5 a 6 o'r Offeryn yn cael eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddwyd gan baragraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) ("Deddf 2018"). Mae Rhan 5 yn cynnwys diwygiadau sy'n dirymu darpariaethau yn Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/688 (Cy. 132)) i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed eisoes gan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau

Uniongyrchol i Ffermwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/104 (Cy. 17)), a'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan yr Offeryn hwn.

Mae Rhan 6 yn cynnwys diwygiadau i gywiro gwallau yn Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 (O.S. 2019/1281 (Cy. 225)) a Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 (O.S. 2019/1376 (Cy. 242)).

Mewn perthynas â Rhannau 5 a 6 o'r Offeryn, mae'r gofyniad ym mharagraff 4(a) o Atodlen 2 (sy'n ymwneud ag ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol) i Ddeddf 2018 wedi'i fodloni.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Ar y Diwrnod Ymadael, ymgorfforodd Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("Deddf DPFLC") ddeddfwriaeth yr UE a oedd yn llywodraethu Cynlluniau Taliad Uniongyrchol Polisi Amaethyddol Cyffredin 2020 yng nghyfraith y DU.

Roedd hyn yn angenrheidiol oherwydd effaith Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael oedd eithrio deddfwriaeth taliadau uniongyrchol ar gyfer y flwyddyn hawlio 2020 o ddeddfwriaeth a oedd yn rhan o'r cyfnod pontio.

Gwnaed Rheoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90) a Rheoliadau Rheolau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91) yn unol â phwerau yn adran 3 o Ddeddf DPFLC. Gwnaeth yr OSau hyn gywiriadau i'r ddeddfwriaeth taliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol ar y Diwrnod Ymadael. Mae'r rheoliadau hyn yn parhau mewn grym ar ôl 31 Rhagfyr 2020 yn rhinwedd adran 3(8) o Ddeddf DPFLC.

Mae'r Offeryn hwn yn cael ei wneud yn unol â pharagraffau 2(1), 3(1) a (2) a 4(1) a (2) o Atodlen 5 i Ddeddf 2020, a pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2018.

Mae'r Offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn unol ag adran 50(6)(c) ac (8) o Ddeddf 2020, a pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018.

Yn unol â gofynion Deddf 2018, mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y nodir yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Offeryn hwn yn sicrhau y gall cynlluniau presennol y Taliad Uniongyrchol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru barhau i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol y tu hwnt i flwyddyn hawlio 2020, sy'n para tan 31 Rhagfyr 2020.

Taliadau Uniongyrchol fu'r prif gynlluniau cymhorthdal incwm i ffermwyr o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Ymgorfforwyd y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu cynlluniau Taliadau Uniongyrchol 2020 yng nghyfraith y DU ar y diwrnod ymadael a chafodd cynllun 2020 ei ariannu'n ddomestig.

Mae diben y ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio gan yr Offeryn fel a ganlyn:

Rhan 2 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Lorweddol

- Mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("y Rheoliadau Llorweddol") yn nodi'r rheolau manwl o weithredu Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE ar gyfer cynlluniau Colofn 1 a Cholofn 2. Mae'r Rheoliadau Llorweddol yn darparu gofynion ar gyfer gweinyddu'r cynlluniau (gan gynnwys mesurau Archwilio a Rheoli) ac adrodd am gyllid o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 640/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system integredig gweinyddu a rheoli ac amodau ar gyfer gwrthod neu dynnu taliadau yn ôl a chosbau gweinyddol sy'n gymwys i daliadau uniongyrchol, cymorth datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio yn nodi'r rheolau manwl mewn perthynas ag amodau ar gyfer gwrthod neu dynnu cymorth yn ôl yn rhannol neu'n gyfan gwbl, cosbau gweinyddol, y system integredig, ar gyfer y system adnabod ar gyfer parseli amaethyddol a thrawsgydymffurfio.
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r system integredig gweinyddu a rheoli, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio yn nodi'r rheolau manwl mewn perthynas â gwiriadau gweinyddol ac yn y hapwiriadau, adrodd am wiriadau a dilysiadau, mesurau rheoli penodol mewn perthynas â chywarch, achosion lle gellir cywiro ac addasu hawliadau talu, adennill taliadau a chosbau gormodol, trosglwyddo daliadau a thalu blaendaliadau.
- Mae Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 907/2014 ar 11 Mawrth 2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran talu asiantaethau a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, gwarantau a defnyddio'r ewro yn nodi rheolau manwl mewn perthynas ag asiantaethau talu a chyrff cydlynu, achredu cyrff o'r fath, rheolaeth ariannol a defnyddio'r Ewro.
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 908/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran talu asiantaethau a chyrff eraill, rheolaeth ariannol, clirio cyfrifon, rheolau ar wiriadau, gwarantau a thryloywder yn nodi rheolau manwl mewn perthynas ag asiantaethau talu, rheolaeth ariannol, gwiriadau, gwarantau a thryloywder.

Rhan 3 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Uniongyrchol a Ddargedwir

- Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy’n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin;
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 639/2014 dyddiedig 11 Mawrth 2014 sy’n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin; a

- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin.

Rhan 4 – Taliadau Uniongyrchol: Deddfwriaeth Ddomestig

- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru, er mwyn gweithredu Rheoliadau Ewropeaidd (gan gynnwys y Rheoliadau Llorweddol a'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol a'r Rheoliadau Dirprwyedig a'r Rheoliadau Gweithredu cysylltiedig) sy'n ymwneud â gweinyddu polisi amaethyddol cyffredin yr UE. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau ar reoli a gorfodi mewn perthynas â thaliadau a roddir yn uniongyrchol i ffermwyr o dan Daliadau Uniongyrchol, dyddiadau cymwys ar gyfer ceisiadau, isafswm maint daliad, gweithdrefnau ar gyfer dyledion, pwerau mynediad, troseddau a chosbau a rheolau ar drawsgydymffurfio.

- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Rheoli a Gorfodi, Trawsgydymffurfio, Craffu ar Drafodiadau ac Apelau) 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu yn Lloegr ac, at ddibenion penodol, yn y Deyrnas Unedig, y Rheoliadau Ewropeaidd sy'n ymwneud â gweinyddu Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE. Mae rheoliadau 3 a 4 yn rhychwantu'r DU. Mae rheoliad 3 yn nodi pa awdurdod cymwys fydd yn dyfarnu ar gais unigol ar gyfer taliadau uniongyrchol, ac mae rheoliad 4 yn caniatáu i awdurdodau cymwys ymrwymo i gytundebau asiantaeth gyda'i gilydd.

- Mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, ar gyfer gweinyddu'r Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol a'r Rheoliadau Dirprwyedig a'r Rheoliadau Gweithredu cysylltiedig. Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi darpariaethau ar isafswm maint cymwys daliad, y dyddiad y mae rhaid i barseli tir fod ar gael i ffermwyr, y lefelau isaf o weithgarwch amaethyddol, coedlan cylchdro byr a'r cylchoedd cynaeafu uchaf, cyfrifo taliadau'r Cynllun Ffermwyr Ifanc, dyrannu hawliau i daliadau, trosglwyddo a phrydlesu a'r gofynion o ran Gwyrddu.

Rhan 5 – Taliadau Uniongyrchol: diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

- Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru ac yn gwneud diwygiadau amrywiol i is-ddeddfwriaeth ynghylch y polisi amaethyddol cyffredin.

Rhan 6 – Diwygio deddfwriaeth ddomestig o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd

- Mae Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau amrywiol i amryw o ddarnau o ddeddfwriaeth ddomestig gan gynnwys:

  - Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011;
  - Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019;
  - Rheoliadau Llifogydd a Dŵr (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â'r UE) 2019; a
  - Rheoliadau Tatws Hadyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

- Mae Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) (Rhif 3) 2019 yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sy'n ymwneud â bwyd a garddwriaeth:

  - Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaeth Ffres (Cymru) 2009;
  - Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010;
  - Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011;
  - Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019; a
  - Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

**Pam mae'n cael ei newid?**

Mae'r Offeryn hwn yn caniatáu i'r cynlluniau Taliadau Uniongyrchol ar gyfer ffermwyr yng Nghymru barhau y tu hwnt i gynllun 2020 ddod i ben.

Mae'r Rheoliad Taliadau Uniongyrchol ar hyn o bryd yn cynnwys terfynau ariannol a ddefnyddir i gyfrifo Taliadau Uniongyrchol i ffermwyr ledled y DU. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys ond terfynau ariannol hyd at, ac yn cynnwys, blwyddyn hawlio 2020. Mae'r Offeryn hwn yn nodi'r ffordd y bydd Gweinidogion Cymru yn pennu'r terfyn ariannol blynyddol er mwyn cyfrifo taliadau y tu hwnt i 2020 yng Nghymru.

Mae'r Offeryn hwn yn dileu o gyfraith yr UE a ddargedwir ddarpariaethau nad ydynt yn gymwys yng Nghymru, a darpariaethau nad ydynt yn berthnasol y tu hwnt i gynllun 2020. Er enghraifft, mae'r Offeryn yn dileu'r rheolau sy'n ymwneud â throsglwyddo cyllid o gyllideb Taliadau Uniongyrchol 2020 i'w defnyddio ar gyfer mesurau datblygu gwledig (trosglwyddo o golofn i golofn).

Mae'r Offeryn hwn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau a symleiddiadau, ond rhai a fydd yn cael effaith fawr, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol y tu hwnt i 2020. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, rhoi dyddiadau newydd yn lle'r dyddiadau sy'n rhai penodol ar gyfer cynllun 2020, dileu cyfeiriadau

at yr ewro a symleiddio i ddileu cymhlethdodau gweinyddol a theilwra cyfraith yr UE a ddargedwir er mwyn cefnogi ffermwyr Cymru wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

Hefyd, mae’r Offeryn yn diwygio offerynnau statudol Cymru sy’n ymwneud ag Ymadael â’r UE i sicrhau eu bod yn gallu gweithredu ac i ymdrin â gwallau.

## 5. Ymgynghori

Mae’r diwygiadau yn Rhannau 2 – 5 o’r Offeryn wedi bod yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Roedd ‘Ffermio Cynaliadwy a’n Tir: Cynigion i gynnal a symleiddio Cymorth Amaethyddol i Ffermwyr a’r Economi Wledig’ ar agor rhwng 31 Gorffennaf a 23 Hydref 2020.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. Mae’r swyddogion yn ystyried nad yw’r diwygiadau hyn yn gwneud newidiadau sylfaenol i’r trefniadau cyllid presennol ar gyfer cymorth amaethyddol ac na fyddant yn cael effaith sylweddol ar y sector cyhoeddus na’r sector preifat, ar elusennau na sectorau gwirfoddol.

O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

## Atodiad

## Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### Rhan 1

Tabl o Ddatganiadau o dan Ddeddf 2018

| Datganiad | Lleoliad y gofyniad | I bwy y mae'n gymwys? | Yr hyn y mae'n ei wneud yn ofynnol |
|---|---|---|---|
| Sifftio | Paragraffau 3(3), 3(7) a 17(3) a 17(7) o Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) i wneud OS Negyddol. | Rhaid cwblhau Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y ddeddfwriaeth arfaethedig a allai effeithio ar y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, ar elusennau neu'r sector gwirfoddol. |
| Priodoldeb | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2. | Datganiad yn nodi nad yw'r OS yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol. |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2. | Egluro'r rhesymau da dros wneud yr offeryn ac egluro bod yr hyn a wneir yn ffordd resymol o weithredu. |
| Cydraddoldeb | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2. | Egluro pa ddiwygiadau, ddiddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, a wneir i Ddeddf Cydraddoldeb 2006 a Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny. Nodi bod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddilys i'r angen i gael gwared ar achosion o wahaniaethu ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2020. |
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2. Yn ogystal â'r rhwymedigaeth statudol, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n wleidyddol i gynnwys y datganiadau hyn ochr yn ochr â phob un o OSau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. | Egluro'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, ee, ai mân newidiadau a newidiadau technegol yn unig y bwriedir eu gwneud i gyfraith yr UE a ddargedwir. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 8(1), 9, a 23(1) neu sy'n arfer ar y cyd bwerau yn Atodlen 2 i greu trosedd. | Nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb gysylltiedig. |
| Pŵer a Is-ddirprwywyd | Paragraff 30, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n arfer adrannau 10(1), 12 a rhan 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol sy'n arferadwy nid gan un o Weinidogion y Goron nac Awdurdod Datganoledig drwy Offeryn Statudol. | Nodi pam mae'n briodol creu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath. |
| Brys | Paragraff 34, Atodlen 7 | Gweinidogion y Goron sy'n defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraffau 4 neu 14, Atodlen 7. | Datganiad yn nodi pam mae'r Gweinidog yn credu bod yr OS yn un brys. |
| Esboniad pan fo rheoliadau o dan adran 2(2) o ECA 1972 yn cael eu diwygio | Paragraff 13, Atodlen 8 | Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan adran 2(2) o ECA 1972 | Datganiad yn egluro'r rhesymau da dros addasu'r offeryn a wnaed o dan adran 2(2) o ECA 1972, yn nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, ac yn egluro effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir<br>. |
| Datganiad ar graffu pan fo rheoliadau o dan adran 2(2) o ECA 1972 yn cael eu diwygio | Paragraff 16, Atodlen 8 | Unrhyw un sy'n gwneud OS ar ôl y diwrnod ymadael o dan bwerau y tu allan i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 sy'n addasu is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan adran 2(2) o ECA 1972. | Datganiad:<br><br>a) yn nodi'r camau y mae rhaid i'r awdurdod priodol eu cymryd i sicrhau bod yr offeryn drafft a gyhoeddir yn unol â pharagraff 16(2), Atodlen 8 ar gael i ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig,<br><br>b) yn cynnwys gwybodaeth am ymateb yr awdurdod priodol i— (i) unrhyw argymhellion a wneir gan bwyllgor naill Dŷ'r Senedd neu'r llall ynghylch yr offeryn drafft a gyhoeddwyd, ac (ii) unrhyw sylwadau eraill a wnaed i'r awdurdod priodol ynghylch yr offeryn drafft a gyhoeddwyd, ac<br><br>c) yn cynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae'r awdurdod perthnasol yn ystyried ei bod yn briodol mewn perthynas â chraffu ar yr offeryn neu'r offeryn drafft sydd i'w osod. |

**Rhan 2**

Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

**1. Datganiad(au) sifftio**

Amherthnasol.

**2. Datganiad priodoldeb**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynglŷn â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol."

Mae hyn yn wir oherwydd mae'r Offeryn yn cywiro diffygion sy'n deillio o'r ymadawiad ac yn sicrhau bod y cynllun taliadau uniongyrchol yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru ar ôl inni ymadael â'r UE. Mae'r Offeryn yn gwneud mân newidiadau a fydd yn cael effaith fawr, gan alluogi dull gweithredu sydd wedi ei deilwra ar gyfer darparu cyllid amaethyddol yng Nghymru ar ôl i'r Cyfnod Gweithredu ddod i ben. Mae'n sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn parhau i gynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn parhau i weithredu'n effeithiol yng Nghymru yn dilyn y Cyfnod Gweithredu.

**3. Rhesymau da**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynglŷn â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Rwy'n credu bod rhesymau da dros y darpariaethau yn yr Offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i gasgliad bod hon yn ffordd resymol o weithredu."

Y rheswm am hyn yw bod y darpariaethau yn sicrhau bod deddfwriaeth a ddiwygir gan yr Offeryn hwn yn caniatáu inni bontio'n ddidrafferth o'r Cyfnod Gweithredu hyd nes y bydd cymorth amaethyddol wedi ei ddiwygio yn y dyfodol.

**4. Cydraddoldeb**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

"Nid yw'r Offeryn yn diwygio, diddymu na dirymu darpariaeth na darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 nac yn Neddf Cydraddoldeb 2010, nac mewn is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y Deddfau hynny."

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynglŷn â defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Mewn perthynas â'r Offeryn, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi ystyriaeth ddilys i'r angen i gael gwared ar achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010."

**5. Esboniadau**

Mae'r datganiad sy'n cynnwys yr esboniadau wedi ei wneud ym mharagraff 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) o brif gorff y Memorandwm Esboniadol hwn.

**6. Troseddau**

Amherthnasol/nid yn angenrheidiol.

**7. Is-ddirprwyo deddfwriaethol**

Amherthnasol/nid yn angenrheidiol.

**8. Brys**

Amherthnasol/nid yn angenrheidiol.